Solicitors Regulation Authority | SQE

# Cwestiwn enghreifftiol SQE2 a thrafodaeth ar yr ateb

Drafftio cyfreithiol (Datrys Anghydfodau)

*Adolygwyd Rhagfyr 2025*

Bydd ymgeiswyr yn sefyll 16 o asesiadau yn SQE2. Er mwyn pasio SQE2, rhaid i ymgeiswyr gael y marc pasio cyffredinol ar gyfer SQE2.

Mae'r cwestiwn enghreifftiol hwn, a thrafodaeth ar yr ateb, yn enghraifft o asesiad drafftio cyfreithiol. Asesiad ar gyfrifiadur yw hwn a bydd gan ymgeiswyr 45 munud i gyflawni'r dasg.

Am ragor o fanylion, gweler Manyleb Asesu SQE2.

**Sylwer y darperir y cwestiynau enghreifftiol er mwyn rhoi syniad o'r math o dasgau y gellid eu gosod i ymgeiswyr. Nid ydynt yn adlewyrchu'r holl ddeunydd sydd wedi'i gynnwys yn SQE2.**

**Efallai na fydd cwestiynau yn y dyfodol yn dilyn yr un fformat yn union.**

# Cwestiwn a phapurau ychwanegol i ymgeiswyr

**E-bost at yr Ymgeisydd**

**Oddi wrth:** Partner
**Anfonwyd:** 4 Rhagfyr 2025
**At:** Yr Ymgeisydd
**Pwnc:** Addison Builders Limited

Byddi di'n cofio ein bod yn disgwyl ymateb i'r Llythyr Cyn Hawlio a anfonwyd gennym at Maria ac Ian Humphries ar ran Addison Builders Limited. Mae'r cwpl wedi cyfarwyddo cyfreithwyr, Faulkners and Co. Rydym bellach wedi derbyn llythyr mewn ymateb, sy'n gwadu bod unrhyw daliad pellach yn ddyledus i'n cleient ni, ar y sail bod diffygion sylweddol yn y gwaith a wnaed gan Addison Builders Limited.[1] Mae ein cleient yn gwadu'r honiad bod diffygion sylweddol.

Amgaeaf ddatganiad drafft cychwynnol gan John Evans, rheolwr gyfarwyddwr Addison Builders Limited a ddylai roi'r holl wybodaeth y mae ei hangen arnat. Byddi di'n sylwi bod paragraff 4 yn y datganiad drafft cychwynnol yn cyfeirio at gytundeb ysgrifenedig. Nid oes gennym gopi o hwn ar hyn o bryd ond mae John Evans wedi fy sicrhau y bydd yn ei anfon atom a bod ei delerau fel a nodir yn ei ddatganiad tyst felly dylet fwrw ymlaen ar y sail honno.

Cawsom ein cyfarwyddo i gychwyn achos. Rwy'n bwriadu anfon y Ffurflen Hawlio i'r llys gyda Manylion yr Hawliad ar 8 Rhagfyr 2025. **Hoffwn i ti ddrafftio Manylion yr Hawliad gan ddefnyddio'r templed a ddarperir.** Mae ein system rheoli achosion eisoes wedi llenwi rhai rhannau o'r ffurflen.

Nid oes darpariaeth ar gyfer llog yn y cytundeb ysgrifenedig felly dylet gynnwys hawliad am log statudol yn unol â Deddf Llysoedd Sirol 1984, a.69 ar gyfradd o 8% y flwyddyn, a dyma'r ffigurau:

Mae 157 diwrnod tan 8 Rhagfyr, ar 8%, yn £5,368.11 ar gyfradd ddyddiol o £34.19 y diwrnod (**nodyn i ymgeiswyr: dylech gymryd yn ganiataol bod y ffigurau hyn yn gywir**).

Bydd John Evans yn llofnodi'r datganiad gwirionedd.

Diolch

Partner

[1] Nid yw'r llythyr ymateb wedi ei ddarparu at ddiben yr asesiad hwn.

**ATODIADAU:**

1. Datganiad tyst drafft John Evans
2. Templed Ffurflen Manylion yr Hawliad

**Nodyn i Ymgeiswyr:**

**Dylech roi eich ateb yn y templed a ddarperir.**

**Peidiwch â rhoi eich enw yn y templed ateb.**

# DIWEDD

**Atodiad 1**

**Datganiad drafft John Evans**

Byddaf i, John Evans o 4, Dawlish Road, Llundain N3 4SS, yn dweud fel a ganlyn:

1. Fi yw rheolwr gyfarwyddwr Addison Builders Limited, sef cwmni yng ngogledd Llundain. Mae’r cwmni’n arbenigo mewn adeiladu ac adnewyddu cartrefi preswyl moethus. Sefydlais y cwmni yn 2018 gyda fy nau frawd ac mae’n fusnes teuluol go iawn.

2. Ar 2 Medi 2024, cysylltodd Maria Humphries â mi. Roedd hi wedi cael fy enw gan gwsmer blaenorol. Roedd Maria a’i gŵr, Ian, wedi prynu eiddo yr oedd angen tipyn o waith arno yng ngogledd Llundain (6 Highbury Way, N7 5RD). Mae tir o’i gwmpas. Roedd y cwpl am drawsnewid hyn yn dŷ moethus â chwe ystafell wely. Roeddent eisoes wedi cyflogi pensaer i greu’r cynlluniau ac wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu.

3. Ar 4 Medi 2024, cwrddais â Maria ac Ian ar y safle i baratoi prisiad manwl o’r gwaith dan sylw. Roedd y gwaith yn helaeth gan fod angen gwneud llawer iawn o waith adnewyddu ar yr eiddo presennol ac roedd angen ei estyn i'w wneud yn eiddo â chwe ystafell wely. Roeddwn i wedi amcangyfrif bod cyfanswm cost y gwaith yn £220,000 a byddai’r gwaith yn cymryd tua naw mis.

4. Ar 6 Medi 2024, fe wnes i gwrdd â Maria ac Ian eto a rhoi ein contract gwasanaethau adeiladu safonol iddynt.[2] Roedd hyn yn egluro trefn y taliadau angenrheidiol yn glir ac yn rhoi manyleb fanwl o’r gwaith. Roedd Maria ac Ian yn hapus gyda’r contract ac fe’i llofnodwyd y diwrnod hwnnw. Cytunwyd y byddai’r gwaith yn dechrau ar 26 Medi 2024 ac y byddai’r gwaith yn cael ei gwblhau erbyn 4 Gorffennaf 2025.

5. Dan delerau ein contract, cafodd y taliadau eu rhannu'n bedwar rhandaliad fel a ganlyn:

    - roedd angen 20% (£44,000) o’r gost o fewn saith diwrnod i ddyddiad y contract, sef erbyn 13 Medi 2024;
    - 25% (£55,000) o fewn tri mis i ddyddiad y contract, sef erbyn 6 Rhagfyr 2024;
    - 25% (£55,000) o fewn chwe mis i ddyddiad y contract, sef erbyn 6 Mawrth 2025; a
    - 30% (£66,000) ar ôl cwblhau’r gwaith.

---

[2] Nodyn i ymgeiswyr: bydd John Evans yn darparu'r contract hwn.

6. Eglurodd Maria wrthyf eu bod nhw wrthi'n gwerthu eu fflat presennol yn Llundain, a fyddai'n ariannu'r rhan fwyaf o'r gwaith ar y tŷ newydd, er y byddai'r taliad cychwynnol yn dod o'u cynilion. Fodd bynnag, fe'm sicrhaodd y byddai'r amserlen daliadau yn foddhaol iddynt gan eu bod eisoes wedi dod o hyd i brynwr ar gyfer eu fflat ac y byddent yn cyfnewid contractau ymhen pythefnos.

7. Ar 13 Medi 2024, cefais y taliad cyntaf o £44,000 gan Maria ac Ian.

8. Dechreuon ni weithio ar gartref Maria ac Ian ar 26 Medi 2024. Roedd y taliad nesaf i fod i gael ei wneud ar 6 Rhagfyr 2024. Fodd bynnag, ar 2 Rhagfyr 2024 mewn cyfarfod yn 6 Highbury Way, dywedodd Maria ac Ian wrthyf nad oeddent wedi gwerthu eu fflat o hyd a gwnaethant ofyn a fyddwn yn barod i aros am ddau fis arall am yr arian. Roeddwn i wedi meithrin perthynas waith dda gyda'r cwpl erbyn hynny ac roeddwn i'n gallu gweld eu bod nhw mewn sefyllfa anodd. Felly fe gytunais y gallan nhw, heb gosb, dalu'r rhandaliad nesaf ar 7 Chwefror 2025 pan fyddant, gobeithio, wedi gwerthu eu heiddo.

9. Ym mis Chwefror 2025, roedd Maria ac Ian yn dal heb werthu eu fflat gan fod eu darpar brynwyr newydd yn wynebu oedi yn y gadwyn eiddo. Fodd bynnag, roedd Maria wedi llwyddo i fenthyg arian gan ei rhieni ac roedd hi'n gallu cynnig £20,000 i mi i gadw'r gwaith i fynd. Mewn cyfarfod gydag Ian a Maria yn 6 Highbury Way ar 7 Chwefror 2025, cytunais i dderbyn £20,000 ar y sail hon. Roedd Maria yn feichiog ers pedwar mis ac roedd hi'n awyddus iawn i fod yn y cartref newydd erbyn geni'r babi. Talodd Maria yr £20,000 i mi ar 7 Chwefror 2025, gan ddod â'r cyfanswm a dalwyd hyd hynny i £64,000.

10. Ym mis Mai 2025, roedd y prosiect yn mynd rhagddo'n dda ac roeddwn i'n disgwyl gorffen y gwaith ar 4 Gorffennaf 2025 fel y bwriadwyd. Roedd Maria ac Ian wedi cyfnewid contractau i werthu eu fflat ond roedd y dyddiad cwblhau wedi'i ohirio gan fod y prynwr dramor. I wneud pethau'n waeth, cafodd Maria'r babi dri mis yn gynnar a bu hi ac Ian yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn yr ysbyty gyda'u babi newydd-anedig. Roeddwn i'n teimlo trueni mawr dros y cwpl ac felly fe wnes i gyfarfod â nhw yn 6 Highbury Way ar 20 Mai 2025 a chytuno, ar lafar, y byddan nhw'n gallu talu'r holl daliadau a oedd yn ddyledus i mi ar ôl cwblhau'r gwaith ar yr amod eu bod yn gwneud hynny ar ddiwrnod cwblhau'r gwaith. Cytunais y byddai hyn yn disodli ein cytundeb gwreiddiol ynghylch y taliadau a drefnwyd.

11. Ar 4 Gorffennaf 2025, gorffennais y gwaith ar gartref newydd Maria ac Ian ac roedd yn ymddangos eu bod yn hapus ag ef, er ei fod yn gyfnod anodd iddynt gan nad oedd eu babi'n ddigon iach i ddod adref o hyd. Rhoddais fil terfynol o £156,000 iddynt ar 4 Gorffennaf 2025.

12. Erbyn 10 Gorffennaf 2025 nid oeddwn wedi clywed dim gan y cwpl o hyd, ac fe

wnes i eu ffonio i weld beth oedd yn creu'r oedi.  Roeddwn ar ddeall fod eu fflat yn Llundain wedi gwerthu ac na ddylai fod rheswm pellach pam na allent wneud y taliad terfynol.  Cefais sgwrs fer iawn ar y ffôn gyda Maria ond torrodd hi ar fy nhraws i’n gwta gan ddweud wrthyf y byddai’n trefnu bod Ian yn fy ffonio i.

13. Y diwrnod canlynol, roeddwn i dal heb glywed dim, felly fe anfonais e-bost brys yn atgoffa Ian bod angen iddynt setlo’r cyfrif ar unwaith.  Ni wnaeth Ian ymateb i’r e-bost hwnnw.  Anfonais lythyr gyda geiriad cryfach at y ddau ar 14 Gorffennaf 2025 ond ni wnaethant ymateb i hwnnw chwaith.  Clywais gan un o’m contractwyr fod Ian wedi awgrymu nad oedd y cwpl yn hapus gyda safon orffenedig y tŷ, er nad wyf yn deall hyn mewn gwirionedd gan nad oeddent wedi dweud dim byd o’r fath wrthyf i.

14. Ar 29 Gorffennaf 2025 sylweddolais nad oedd gen i ddewis ond cysylltu â chyfreithwyr ynglŷn â’r mater.  Maen nhw wedi bod yn delio â'r mater ers hynny.

Credaf fod y ffeithiau a nodir yn y datganiad tyst hwn yn wir.  Deallaf y gellir dwyn achos am ddirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad ffug, neu’n achosi i ddatganiad ffug gael ei wneud, mewn dogfen a gadarnhawyd gan ddatganiad gwirionedd heb gred onest ei fod yn wir.

……………………………………………

John Evans

Dyddiad: [  ] Rhagfyr 2025

# DIWEDD

**Atodiad 2**

**Templed**

**YN [**nodwch enw'r llys **]** **Rhif yr Hawliad:**

**RHWNG:**

[nodwch] **Hawlydd**

**a**

**(1)** [nodwch]

**(2)** [nodwch] **Diffynyddion**

---

**MANYLION YR HAWLIAD**

---

Dyddiad:

DATGANIAD GWIRIONEDD

[Credaf fod][mae (yr Hawlydd neu fel arall) yn credu bod][3] y ffeithiau a nodir ym Manylion yr Hawliad hwn yn wir. Deallaf y gellir dwyn achos am ddirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad ffug, neu'n achosi i ddatganiad ffug gael ei wneud, mewn dogfen a gadarnhawyd gan ddatganiad gwirionedd heb gred onest ei fod yn wir.

Rwyf wedi fy awdurdodi gan yr Hawlydd i lofnodi'r Datganiad hwn

Llofnod:........................

Enw llawn:

Swydd neu Swyddogaeth:

Dyddiad:.......................

Cyfreithwyr yr Hawlydd yw NHJF Law LLP, 1 The Churchyard, Llundain, EC1 4PP, ac atynt hwy y dylid anfon dogfennau

# DIWEDD

[3] Nodyn i ymgeiswyr: Dylech ddileu fel sy'n briodol.

# Trafodaeth ar yr ateb

**<u>Drafftio Cyfreithiol</u>**

## PWYNTIAU CYFREITHIOL ALLWEDDOL

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Rhoi datganiad cryno o'r ffeithiau y mae'r hawlydd yn dibynnu arnynt mewn ffordd glir a rhesymegol gan gynnwys:
  - partïon y contract
  - natur a thelerau'r contract (gan atodi'r cytundeb ysgrifenedig)
  - amrywiadau llafar i'r contract gan roi manylion
  - perfformiad yr hawlydd (cwblhau'r gwaith)
  - taliad rhannol gan y diffynyddion
  - y diffynyddion yn torri amodau (methu talu)
  - y swm sy'n ddyledus
  - hawlio llog (yn unol â'r cyfarwyddiadau)
- Defnyddio'r cyfarwyddiadau i gwblhau'r pennawd a'r datganiad gwirionedd.

## ENGHRAIFFT O ATEB

**Mae'r ateb hwn yn enghraifft o ateb ymgeisydd a fyddai'n cael ei asesu fel un sy'n amlwg yn cyflawni gofynion cymhwysedd yr asesiad Drafftio Cyfreithiol. Nid ateb perffaith nac ateb model mo hwn ac mae pwyntiau pellach y gellid bod wedi'u gwneud.**

**ENGHRAIFFT O ATEB**

**YN Y LLYS SIROL** **Rhif yr Hawliad:**

**RHWNG:**

**ADDISON BUILDERS LIMITED** **Hawlydd**

**a**

**(1) MRS MARIA HUMPHRIES**

**(2) MR IAN HUMPHRIES** **Diffynyddion**

---

**MANYLION YR HAWLIAD**

---

1. Mae'r Hawlydd, ac roedd yr Hawylydd trwy gydol yr amser perthnasol, yn gwmni adeiladu sy'n darparu gwasanaethau adeiladu yng ngogledd Llundain. Trwy gydol yr amser perthnasol, gweithredodd yr Hawlydd drwy ei Reolwr Gyfarwyddwr, John Evans.

2. Drwy gytundeb ysgrifenedig rhwng yr Hawlydd a'r Diffynyddion a wnaed ar 6 Medi 2024 (y "Cytundeb"), cytunodd yr Hawlydd i adnewyddu eiddo'r Diffynyddion yn 6 Highbury Way N7 5RD (yr "Eiddo") a chytunodd y Diffynyddion i dalu £220,000 am hynny. Mae'r Cytundeb ynghlwm wrth Fanylion yr Hawliad yn Atodlen 1.

3. Roedd y Cytundeb yn darparu y byddai gwaith ar yr Eiddo (y "Gwaith") yn dechrau ar 26 Medi 2023 ac y byddai'n cael ei gwblhau ar 4 Gorffennaf 2025. Cytunwyd hefyd y byddai'r pris o £220,000 yn cael ei dalu mewn pedwar rhandaliad ("Amserlen y Taliadau") fel a ganlyn:

   i) £44,000 erbyn 13 Medi 2024;
   ii) £55,000 erbyn 6 Rhagfyr 2024;
   iii) £55,000 erbyn 6 Mawrth 2025; a
   iv) £66,000 ar ôl cwblhau'r gwaith.

4. Ar 13 Medi 2024 gwnaeth y Diffynyddion daliad i'r Hawlydd sef £44,000 yn unol ag Amserlen y Taliadau.

5. Ar 26 Medi 2024, dechreuodd yr Hawlydd ar y Gwaith.

6. Yna, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng yr Hawlydd a'r Diffynyddion yn yr Eiddo pan gytunwyd ar lafar ar amrywiadau i Amserlen y Taliadau fel a ganlyn:

   i) ar 2 Rhagfyr 2024 cytunodd yr Hawlydd a'r Diffynyddion y byddai'r taliad o £55,000 a oedd yn ddyledus ar 6 Rhagfyr 2024 yn cael ei wneud ar 7 Chwefror 2025;

   ii) ar 7 Chwefror 2025, cytunodd yr Hawlydd a'r Diffynyddion y byddai'r Hawlydd yn derbyn taliad o £20,000 gan y Diffynyddion er mwyn parhau â'r Gwaith;

   iii) ar 20 Mai 2025, cytunodd yr Hawlydd a'r Diffynyddion y byddai gweddill pris y Gwaith (£156,000) yn cael ei dalu'n syth ar ôl cwblhau'r gwaith.

7. Cwblhawyd y Gwaith ar 4 Gorffennaf 2025, yr oedd y Diffynyddion i'w gweld yn fodlon ag ef, a rhoddodd yr Hawlydd yr anfoneb derfynol i'r Diffynyddion ar gyfer y £156,000 a oedd yn ddyledus bryd hynny.

8. Gwnaed ceisiadau pellach am y taliad ar 10, 11 a 14 Gorffennaf 2025, ond mae'r Diffynyddion wedi methu talu'r swm o £156,000 nac unrhyw ran ohono i'r Hawlydd.

9. Mae'r Hawlydd felly'n hawlio'r swm o £156,000 sy'n ddyledus gan y Diffynyddion i'r Hawlydd.

10. Mae'r Hawlydd hefyd yn hawlio llog o dan adran 69 o Ddeddf Llysoedd Sirol 1984 ar y swm o £156,000 ar gyfradd o 8% y flwyddyn rhwng 5 Gorffennaf 2025 a 8 Rhagfyr 2025 (sef 157 diwrnod), sef cyfanswm o £5,368.11 a bydd hyn yn parhau ar gyfradd o £34.19 y diwrnod tan y dyfarniad neu daliad cyn hynny.

AC MAE'R HAWLYDD YN HAWLIO:

(1) Y swm o £156,000

(2) Llog fel a bennir ym mharagraff 10 uchod

NHJF Law LLP

Dyddiad:

DATGANIAD GWIRIONEDD

Mae’r Hawlydd yn credu bod y ffeithiau a nodir ym Manylion yr Hawliad hwn yn wir. Deallaf y gellir dwyn achos am ddirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad ffug, neu’n achosi i ddatganiad ffug gael ei wneud, mewn dogfen a gadarnhawyd gan ddatganiad gwirionedd heb gred onest ei fod yn wir.

Rwyf wedi fy awdurdodi'n briodol gan yr Hawlydd i lofnodi'r Datganiad hwn

Llofnod:
Enw llawn: John Evans
Swyddogaeth: Rheolwr Gyfarwyddwr yr Hawlydd
Dyddiad:
Cyfreithwyr yr Hawlydd y dylid anfon dogfennau atynt yw: NHJF Law LLP, 1 The Churchyard, Llundain, EC1 4PP

ATODLEN 1

Y Cytundeb dyddiedig 6 Medi 2024 y cyfeirir ato ym mharagraff 2 o Fanylion yr Hawliad

**DADANSODDIAD**

***Pam ei bod hi'n glir bod yr ateb enghreifftiol wedi pasio'r asesiad?***

Ni fwriedir i'r canllawiau canlynol awgrymu mai dyma'r unig ffordd bosibl o ateb ond bydd yn eich helpu i ddeall pam y byddai'r ateb enghreifftiol yn cael ei ystyried fel un y mae'n glir ei fod wedi pasio yn unol â'r meini prawf asesu ar gyfer yr asesiad.

**Meini prawf yr asesiad**

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer drafftio cyfreithiol fel a ganlyn:

***Sgiliau***

1. Defnyddio iaith glir, fanwl, gryno a derbyniol.
2. Strwythuro'r ddogfen yn briodol ac yn rhesymegol.

***Cymhwyso'r gyfraith***

3. Drafftio dogfen sy'n gyfreithiol gywir.
4. Drafftio dogfen sy'n gyfreithiol gynhwysfawr i sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol, ac arfer crebwyll i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll.

Roedd hi'n glir o edrych ar y meini prawf uchod bod yr ateb enghreifftiol yn gymwys am y rhesymau canlynol:

| ***MEINI PRAWF SGILIAU*** | |
|---|---|
| **Defnyddio iaith glir, fanwl, gryno a derbyniol** | Mae'r ymgeisydd wedi defnyddio iaith sy'n glir ac yn hawdd ei deall, gan gofio ei bod hi'n ddogfen i'r llys a phartïon eraill. |
| **Strwythuro'r ddogfen yn briodol ac yn rhesymegol** | Mae'r ymgeisydd wedi strwythuro'r ddogfen yn briodol ac yn rhesymegol. Mae cynllun rhesymegol o'r pwyntiau cyfreithiol a ddefnyddir i egluro'r hawliad. |
| ***MEINI PRAWF CYFREITHIOL*** | |
| **Drafftio dogfen sy'n gyfreithiol gywir** | Mae'r ymgeisydd wedi nodi'r egwyddorion cyfreithiol sylfaenol perthnasol ac yn eu defnyddio'n gywir yng nghyd-destun ffeithiau achos y cleient. |

| | |
|---|---|
| | Mae dealltwriaeth mai sail gyfreithiol yr hawliad yw torri contract a bod yr hawliad am swm penodol o arian.<br><br>Mae cynllun yr ateb yn dangos dealltwriaeth o'r materion ffurfiol a'r cynnwys y mae eu hangen ym manylion yr hawliad. |
| **Drafftio dogfen sy'n gyfreithiol gynhwysfawr at sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol, ac arfer crebwyll i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll** | Mae cynnwys yr ymgeisydd yn ddigon manwl yng nghyd-destun achos y cleient. Er enghraifft, mae'r ymgeisydd wedi nodi natur a thelerau'r contract (gan gynnwys amrywiadau llafar), wedi atodi'r cytundeb ysgrifenedig ac wedi nodi bod y diffynyddion wedi torri'r amodau (methu talu), y swm sy'n ddyledus, yr hawliad am log a'r datganiad gwirionedd. |